

Wales 2026 Election Manifesto

Rhaid i Ofal Argyfwng fod ar gael i gefnogi pawb ar yr adegau pan mae arnon ni fwyaf o angen gofal. Fodd bynnag, yn 2024, treuliodd dros 118,000 o gleifion 12 awr neu fwy yn aros mewn Adrannau Argyfwng ledled Cymru. Mae hyn dros ddwywaith yn fwy na'r nifer yn 2018 (47,601). Yn fwy pryderus, nid yw'n anarferol o gwbl bellach i bobl orfod aros am 24 awr yng Nghymru. Yn 2024, treuliodd 44,472 o gleifion 24 awr neu fwy yn aros mewn Adran Argyfwng. Mae amseroedd aros hir yn rhoi cleifion mewn mwy o berygl, gan fod clinigwyr yn gorfod trin cleifion mewn mannau amhriodol, fel coridorau, yn ddyddiol.

Mae gofal argyfwng mewn sefyllfa enbydus, ac mae'n rhaid i rywbeth newid. Cyn etholiadau Senedd 2026, gofynnwn i bob plaid wleidyddol ymrwymo i wneud y canlynol:

1. Dod â gorlenwi mewn Adrannau Argyfwng i ben

Ym mhob Adran Argyfwng yng Nghymru, mae cleifion yn gorfod aros am amser hir cyn cael eu derbyn, eu trin neu eu rhyddhau. Mae hyn yn achosi bygythiad difrifol i ddiogelwch cleifion. Oherwydd prinder gwelyau i gleifion mewnol, mae rhai o'r cleifion gwaelaf yn gorfod aros am gyfnod hir, a phoenus yn aml, cyn cael eu derbyn.

Canfu **arolwg gorlenwi diweddaraf yr RCEM** yng Nghymru fod ciwbiclau yn beryglus o lawn, â chyfartaledd llenwi o 176%. Ym mhob mis yn 2024, roedd tua 1,500 o welyau ysbytai yn cael eu defnyddio gan gleifion a oedd yn ddigon da i fynd adref. Mae angen i fyrddau iechyd gydweithio ar draws y system, gan gynnwys gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn rhyddhau cleifion yn gyflymach a rhyddhau gwelyau. Mae cael capasiti gofal cymdeithasol yn y gymuned, yn ogystal â gwasanaethau cefnogi eraill, yn gwbl hanfodol er mwyn rhyddhau pobl yn gyflymach a gwella llif cleifion drwy ysbytai.

Gallai canllawiau Grŵp Cyngori'r Gweinidog, sy'n nodi y dylid cwblhau trosglwyddiadau ambiwlans cyn pen 45 munud (W45), wneud y sefyllfa'n waeth wrth i ragor o gleifion gael eu gwthio i Adrannau Argyfwng sydd eisoes yn orlawn. O ganlyniad, rydym yn annog llywodraeth Cymru i gyflwyno atebion system gyfan er mwyn sicrhau nad yw effaith W45 yn cael ei deimlo gan Adrannau Argyfwng yn unig.

Roedd **adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr RCN** yn cynnwys manylion brawychus am orlenwi mewn ysbytai, â nyrsys yng Nghymru yn dweud ei bod yn amhosibl cael offer hanfodol fel ocsigen i gleifion oherwydd prinder lle, a'i bod yn anodd cyrraedd y cleifion er mwyn cadw llygad ar eu cyflwr.

Mae amseroedd aros hir hefyd yn cynyddu'r risg y bydd cleifion yn marw. Yn 2024, amcangyfrifwyd bod 936 o farwolaethau ychwanegol wedi digwydd oherwydd bod cleifion wedi gorfod aros am 12 awr neu fwy cyn cael eu derbyn i ysbyty. Mae hyn yn warthus ac mae'n rhaid rhoi sylw iddo.

Mae effeithiau'r gorlenwi hwn ledled Cymru i'w gweld yn glir yn y dirywiad yn nata perfformiad y GIG. Wrth gymharu Ebrill 2021 (y mis cyn etholiad diwethaf y Senedd) ag Ebrill 2025, gwelwn fod canran y cleifion a fu'n aros mwy na 12 awr wedi dyblu (o 7.1% i 15.2%).

Mae gorlenwi yn broblem ym mhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru - ond mae gwahaniaeth rhanbarthol clir y mae'n rhaid rhoi sylw iddo. Mewn un bwrdd iechyd, roedd 24.5% o'r cleifion wedi gorfod aros am 12 awr neu fwy ym mis Rhagfyr 2024, ond mewn bwrdd iechyd arall dim ond 8.8% oedd y ganran ar gyfer yr un mis.

Mae angen canolbwyntio ar wella llif drwy ysbytai, o gyflwyno i ryddhau, gan sicrhau nad yw cleifion yn cael eu gadael mewn Adrannau Argyfwng am gyfnodau hir. Er mwyn gwneud hyn mae angen mwy o welyau a staff, ynghyd â buddsoddiad parhaus mewn gofal cymdeithasol a llwybrau rhyddhau eraill, fel bod modd rhyddhau cleifion sy'n ddigon da i fynd adref.



Er mwyn dod â gorlenwi i ben, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru:

1. Ganolbwyntio ar ddileu cyfnodau aros o 12 awr neu fwy mewn Adrannau Argyfwng.
2. Cyflwyno dulliau cynllunio system gyfan ym mhob bwrdd iechyd er mwyn mynd i'r afael â gorlenwi yn genedlaethol, a sicrhau nad yw canllawiau newydd yn rhoi mwy o faich ar ofal argyfwng.
3. Cynyddu gwariant ar ofal cymdeithasol er mwyn gwella llif cleifion.

2. Sicrhau lefelau staffio digonol yng Nghymru er mwyn diogelu cleifion

Mae prinder staff mewn adrannau argyfwng yn rhoi pwysau ychwanegol diangen ar staff, ac mae'n golygu bod safon y gofal y mae cleifion yn ei gael yn llawer is nag y dylent ei ddisgwyl.

Dangosodd **cyfrifiad gweithlu diweddaraf RCEM ar gyfer Cymru** fod 1 ymgynghorydd ar gyfer pob 7784 o gleifion – sy'n llawer is nag **argymhelliad RCEM o 1 ymgynghorydd ar gyfer pob 4000 o gleifion**, ac yn llawer llai na'r gymhareb ymgynghorydd i gleifion yn yr Alban, sydd â chymhareb o 1 ymgynghorydd ar gyfer pob 4692 o gleifion. Mae prinder staff yn golygu cyfnodau aros hir i gleifion, ac yn cynyddu'r pwysau sydd ar glinigwyr, gan gynyddu'r risg o gamgymeriadau meddygol a diffygio.

Er mwyn sicrhau bod safon y gofal yn gyson ac yn ddiogel, rydym yn gofyn i lywodraeth Cymru gynyddu nifer yr ymgynghorwyr meddygol yn sylweddol yn unol ag argymhellion RCEM. Bydd hyn yn fuddiol iawn i adrannau argyfwng, gan y bydd yn lleihau eu dibyniaeth ar feddygon locwm, ac yn sicrhau bod y rhai sy'n cwblhau eu hyfforddiant yng Nghymru yn cael swyddi yno hefyd.


Er mwyn sicrhau lefelau staffio digonol yng Nghymru, rhaid i'r llywodraeth:

1. Gynllunio i gynyddu nifer y swyddi ymgynghorwyr meddygol cyfwerth ag amser llawn, â'r nod o symud tuag at y gymhareb sy'n cael ei hargymell gan RCEM, sef 1:4000.

3. Buddsoddi mewn seilwaith digidol a mwy o dryloywder data

Er mwyn sicrhau tryloywder data mae angen i fyrddau iechyd gofnodi eu data yn gywir. Ond ar hyn o bryd nid yw data'n cael eu cofnodi'n gyson, ac mae'r ffordd y mae byrddau'n mesur data'n amrywio. Mae byrddau iechyd yng Nghymru yn defnyddio'r hyn a elwir yn "eithriadau clinigol" er mwyn lleihau nifer y cleifion a gofnodir fel rhai sydd wedi aros am 4 awr neu fwy yn yr adran argyfwng. Mae hyn yn rhoi'r argraff bod perfformiad yn well nag ydyw mewn gwirionedd. Cymhwysir yr eithriadau hyn yn anghyson ym mhob bwrdd iechyd, i'r graddau nad ydynt yn golygu dim. Mae RCEM yn galw am roi'r gorau i ddefnyddio'r eithriadau clinigol hyn, gan ei fod yn ddefnydd diangen o adnoddau gweinyddol, ac yn cuddio gwir faint yr heriau sy'n wynebu Adrannau Argyfwng.

Mae'r galedwedd a'r feddalwedd a ddefnyddir hefyd yn effeithio ar gywirdeb y data a'r ffordd y cânt eu cyhoeddi. Nid yw'r systemau gwybodaeth a'r feddalwedd a ddefnyddir mewn byrddau iechyd yng Nghymru yn gallu rhyngweithredu, ac mae rhai byrddau'n dal i ddibynnu ar dechnolegau hen ffasiwn, fel **peiriannau ffacs a chofnodion cleifion a gedwir ar bapur**. Oherwydd y diffyg cysylltiedd mae cynllunio system gyfan yn anos, ac mae llawer o'r problemau'n hysbys yn lleol yn unig. O ganlyniad, mae angen buddsoddi mwy mewn seilwaith digidol er mwyn sicrhau cysondeb a data cywir gan bob bwrdd iechyd.



Er mwyn sicrhau gwell tryloywder data, rhaid i lywodraeth Cymru:

1. Ddarparu buddsoddiad parhaus mewn systemau TG a seilwaith digidol.
2. Integreiddio pob system wybodaeth yng Nghymru er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar staff, a lleihau camgymeriadau clinigol.
3. Ymrwymo i roi'r gorau i ddefnyddio eithriadau clinigol.

Amdanom ni a'n gwaith

Y Coleg Brenhinol Meddygaeth Argyfwng yw'r corff awdurdodol sy'n canolbwyntio ar Feddygaeth Argyfwng yn y DU. Meddygaeth Argyfwng yw'r arbenigedd meddygol sy'n darparu meddygon ac ymgynghorwyr i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn y GIG yn y DU ac i systemau gofal iechyd eraill ledled y byd. Mae gan y Coleg Brenhinol bron i 15,000 o aelodau, sy'n glinigwyr mewn Adrannau Argyfwng ac yn gweithio yn y gwasanaethau iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Rhyngddynt, fe wnaethant ofalu am bron i 20 miliwn o gleifion yn 2024.

Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn bwriadu ymweld ag Adran Argyfwng, ond bydd pob un ohonom yn mynd yno rywbryd. Boed ar ein cyfer ni ein hunain neu rywun sy'n annwyl i ni, rydym i gyd yn disgwyl cael gofal mewn ffordd urddasol a diogel. Mae ein system gofal argyfwng yn darparu gwasanaeth hanfodol, sy'n barod i ofalu amdanom pan mae arnom fwyaf o angen gofal. Cysylltwch â ni drwy policy@rcem.ac.uk os hoffech wybod mwy am y maniffesto hwn.